

Yr adnoddau gorau ar gyfer ymgysylltiad cyfryngau cymdeithasol llwyddiannus yn 2018

Rheoli cyfryngau cymdeithasol

Buffer - <https://buffer.com/>

Mae Buffer yn cynnig sawl ffwythiant, fel golygu lluniau, cydweithio grŵp a dadansoddi data manwl am berfformiad cyfryngau cymdeithasol. Mae ychydig yn haws i'w ddefnyddio nag Hootsuite ac yn helpu chi i drefnu a phostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd.

Hootsuite - <http://signup.hootsuite.com/>

HootSuite ydy'r teclyn rheoli cyfryngau cymdeithasol sydd yn cael ei ddefnyddio fwyaf. Gellir cysylltu i sawl cyfrif cyfryngau cymdeithasol a dilyn hashnodau allweddol gall fod o ddiddordeb. Nid dyma'r meddalwedd hawsaf i'w lywio, ond mae'n rymus iawn.

Franz - <https://meetfranz.com/>

Mae Franz yn declyn gwych. Mae'n caniatáu i chi ychwanegu nifer o ragleni negeseuo a'u rheoli o un dangosfwrdd. Mae hyn yn arbed llawer iawn o amser ac yn osgoi gorvod agor sawl tab. Mae'n haws gweithio ar liniadur neu gyfrifiadur yn hytrach nag ffôn symudol.

Ghost Browser - <https://ghostbrowser.com>

Mae'r wefan yma yn caniatáu i chi fewngofnodi i sawl cyfrif gwefan (ee mwy nag un tudalen Facebook, Instagram neu Twitter) o un ffenestr.

Delweddau

Pablo by Buffer - <https://pablo.buffer.com/>

Creu delweddau gyda dyfyniadau a theilwro'r rhain ar gyfer pob llwyfan cyfryngau cymdeithasol. Dyma un o'r llwyfannau hawsaf i'w defnyddio ac mae'n hawdd creu wythnos o gynnwys cyfryngau cymdeithasol mewn awr.

Canva - <https://www.canva.com/>

Mae Canva yn cynnwys digonedd o offer dylunio, tiwtorialau, templedi a mwy. Mae'n rhaglen debyg i Pablo ac yn cynnig opsiynau mwy manwl ond mae ychydig yn anoddach i'w ddefnyddio.

Pexels - <https://www.pexels.com>

Mae hwn yn offer gwych i ddarganfod lluniau am ddim o ansawdd gellir eu mewnforio i declyn fel Pablo a'i addasu ar gyfer eich anghenion cyfryngau cymdeithasol.

Phraseit - <http://phraseit.net/>

Creu stribedi comig eich hun wrth ychwanegu swigod siarad i ddelweddau.

Casglu data

Typeform - <https://www.typeform.com/>

Mae Typeform yn helpu chi i greu arolwg hyfryd. Mae'r rhain fel arfer yn fwy cyfeillgar i'ch defnyddiwr ac i ffonau nag y mae Google Forms neu Survey Monkey.

Facebook - <https://www.facebook.com/help/175694272486085> (sut i greu arolwg barn)

Gellir defnyddio arolwg barn yn Facebook i bleidleisio neu i gasglu barn eich grwpiau arweinir gan ieuenciad.

Ymchwil cyfryngau

Ofcom -

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf

Adroddiad addysgiadol iawn ar sut mae plant a phobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau.

BBC Academy - <http://www.bbc.co.uk/academy>

Adnodd gwych sydd yn cynnwys ymarfer gorau cyfoes mewn cynhyrchu cyfryngol.

Fideo

Giphy - <https://giphy.com/>

Creu GIFs neu sticeri wedi'u hanimeiddio am ddim. Neu chwiliwch y llyfrgell o filoedd. Mae GIFs yn ffordd sicr o gynyddu ymgysylltiad gyda'ch cynnwys cyfryngau cymdeithasol. Felly Giffiwch hi.

Videoscribe - <https://www.videoscribe.co/en/>

Yn helpu chi i greu animeiddiadau syml gellir eu rhannu ar draws amrywiaeth o lwyfannau.

Powtoon - <https://www.powtoon.com/home/>

Creu fideos a chyflwyniadau wedi'u hanimeiddio.

Diogelu

Canolfan Rhyngrywd Ddiogelach - <https://www.saferinternet.org.uk/>

Yn hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg i bobl ifanc.

Adnoddau sydd yn gysylltiedig â Diwrnod Rhyngrywyd Ddiogelach -

<https://www.saferinternet.org.uk/safer-internet-day/2018>

Dolenni i sefydliadau a phrosiectau sydd yn gweithio gyda diogelwch rhyngrywyd.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol - <http://bwrdddiofalu.cymru/>

Dyma wefan Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol dros Gymru.

Meic - <https://www.meiccymru.org/cym/help-mae-rhywbeth-cythrudol-ar-y-we/>

Meic ydy'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'r erthygl yma yn cynnwys cyngor penodol ar beth i wneud pan nad yw person ifanc yn sicr iawn o sut i ddelio gyda sylwadau neu gynnwys maent yn ei weld.

CEOP - <https://www.ceop.police.uk/safety-centre/>

Mae CEOP yn asiantaeth gorfodi cyfraith sydd yn helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel o gamdriniaeth rywiol a pharatoi i bwrpas rhyw ar-lein.

South West Grid for Learning (SWGfL) - <https://swgfl.org.uk/>

Mae Ymddiriedolaeth y South West Grid for Learning (SWGfL) yn ymddiriedolaeth elusen di-elw sydd yn darparu cysylltedd a gwasanaeth cysylltiol diogel, rheoledig ac wedi cefnogi, technolegau dysgu i wella canlyniadau, a phecyn i aros yn ddiogel ar-lein i ysgolion a sefydliadau eraill.

